Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tregarth
# Ffrwd Galed
# Tregarth
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 4PG

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Tregarth

Lleolir Ysgol Gynradd Tregarth ym mhentref Tregarth, sydd ychydig filltiroedd o ddinas Bangor yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae 104 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 13 disgybl oed meithrin rhan-amser. Tros dreigl tair blynedd, mae 11.5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Tua 57% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 35% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig ar hyn o bryd. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ebrill 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2013.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethol, yn ôl y gyfraith, drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn cynnig arweiniad cefnogol a chadarn wrth osod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy’n seiliedig ar ddarparu addysg o’r ansawdd uchaf. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd hyd eithaf eu gallu mewn awyrgylch hapus, teuluol a chynhwysol. Nodwedd arbennig o’r ysgol yw’r ethos teuluol a gofalgar sy’n creu cymuned glós lle mae disgyblion a staff yn gofalu’n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, teimla’r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol, gan adlewyrchu arwyddair yr ysgol, sef ‘Hapus yn ein Dysgu’, yn llwyddiannus iawn.

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn rhagorol. Mae bron pob disgybl yn ofalgar iawn o’i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth aeddfed a gofalus i anghenion eraill wrth ryngweithio a chefnogi ei gilydd yn y gwersi ac yn ystod adegau egwyl.

Mae ansawdd cynllunio athrawon yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfeiriad manwl at y fframweithiau medrau, tasgau cyfoethog a thasgau sy’n hybu llais y disgybl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn gwneud cynnydd da iawn o’u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n gadarn yn erbyn eu targedau personol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn at wahanol ddibenion.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson y tu mewn a thu allan i’r dosbarthiadau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â dulliau effeithiol i ddatblygu’r holl staff i fod yn ddysgwyr gydol oes.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol. Maent yn hyderus yn y Gymraeg ac yn medru esbonio'u gwaith yn synhwyrol, fel disgrifio'r hyn a ddysgwyd wedi cyswllt uniongyrchol gyda phobl yn Ysgol y Gaiman ym Mhatagonia. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn trafod rhesymau y mae twristiaid yn ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri yn ddeallus. Fodd bynnag, mae tueddiad gan leiafrif y disgyblion i ddefnyddio'r Saesneg fel cyfrwng sgwrs y tu mewn a thu allan i'w gwersi.

Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar oedolion a chyfoedion, sy'n cyfrannu'n dda iawn at eu dealltwriaeth o gysyniadau newydd. Er enghraifft, mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n synhwyrol ar gyfarwyddiadau am sut i fynd ati i fesur a thorri siapiau i greu roced. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg wrth rannu eu syniadau mewn amrediad o gyd-destunau.

Mae llawer yn datblygu medrau darllen cynnar yn gadarn ar waelod y cyfnod sylfaen. Maent yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn gywir, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig defnyddiol. Wrth symud trwy'r cyfnod, mae llawer yn darllen testunau amrywiol yn gynyddol ddeallus yn y Gymraeg. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau'n synhwyrol, fel esbonio am ddigwyddiadau yn llyfrau Enid Blyton a Jill Murphy. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac yn ynganu'n glir yn y ddwy iaith. Maent yn gwahaniaethu'n dda rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn nodi rhinweddau cymeriadau'n gywir. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ymchwil maent yn ei wneud am drychinebau a rhyfeddodau'r byd.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn y dosbarth derbyn yn ffurfio llythrennau'n gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn cyflwyno'u gwaith yn daclus ac yn defnyddio ffurf orchmynnol y ferf yn gywir wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n drefnus yn y ddwy iaith gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth o'u dewis yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn gadarn mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys cofnodi arbrofion gwyddoniaeth a chreu cyflwyniadau digidol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau ac adferfau cyfoethog wrth ysgrifennu hunanbortread, cyfansoddi stori wreiddiol gan ddefnyddio bwrdd stori i gynllunio'n effeithiol, ac ysgrifennu llythyr i blentyn ym Mhatagonia. Mae medrau llythrennedd Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda iawn erbyn diwedd y cyfnod allweddol, sy'n cynnwys ysgrifennu erthygl papur newydd am danau yn difetha coedwig law yr Amazon a phortread manwl o David Attenborough.

Mae'r rhan fwyaf yn y blynyddoedd cynnar yn datblygu dealltwriaeth dda o drefn ac amserau'r dydd. Maent yn trafod a chymharu gweithgareddau'r dydd a'r nos. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac maent yn eu defnyddio'n hyderus wrth ymgymryd â'u gweithgareddau o fewn y dosbarth. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o arian ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i ddatrys problemau syml, er enghraifft i ddarganfod cost creu salad ffrwythau. Mae rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn meysydd eraill o'u dysgu, er enghraifft wrth fesur pa mor bell mae car yn teithio ar wahanol ddefnyddiau mewn arbrawf gwyddonol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn adnabod gwerth digidau o fewn rhifau hyd at filiwn a degolion hyd at tri gwerth lle, ac maent yn lluosi a rhannu rhifau gyda 10 a 100 yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws meysydd eraill o'u dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu medrau rhif i ddarganfod amser a chost hedfan i wledydd ar draws y byd, ac yn defnyddio cyfesurynnau i leoli agweddau ar fap. Maent yn gweithio'n systematig wrth ddefnyddio eu medrau rhif i ddatrys problemau, er enghraifft wrth dalu a chyfrifo newid, wrth gymharu prisiau mewn gwahanol archfarchnadoedd ac wrth ddarganfod cost ymweld â'r sinema.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn at wahanol ddibenion. Mae disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn defnyddio rhaglen i reoli dyfeisiau drwy roi cyfarwyddiadau iddynt i greu animeiddiad o'r stori "Beth nesaf" a chreu bas data am nodweddion planedau cysawd yr haul. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn cymhwyso eu medrau TGCh i safon dda iawn ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am wledydd fel rhan o thema Cwpan Rygbi'r Byd a chyflwyno'n ddychmygus am un o ryfeddodau'r byd. Mae medrau bas data a thaenlenni bron bob un yn datblygu'n effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cofnodi a dadansoddi canlyniadau arbrawf ynysyddion a dargludyddion thermol yn hyderus. Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn medru defnyddio rhaglen rheoli i symud pêl raglenadwy o gwmpas map o Gymru gan ystyried onglau cyfeiriad, pellter ac amser teithio. Mae defnydd rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i gyd-gynllunio a rhannu syniadau'n ddigidol ar ddechrau thema yn effeithiol iawn. Mae'r agwedd hon yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn ar draws yr ysgol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Nodwedd gref iawn o'r ysgol yw'r parch a'r cwrteisi y mae disgyblion yn eu dangos tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn rhagorol. Mae bron pob disgybl yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth aeddfed a gofalus i anghenion eraill wrth ryngweithio a chefnogi ei gilydd yn y gwersi ac yn ystod adegau egwyl.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol sy'n adlewyrchu'r arwyddair, sef 'Hapus yn ein Dysgu', yn effeithiol iawn. Maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder ac yn hyderus bod y staff yn gwrando'n ddiffuant arnynt bob amser.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau ardderchog at ddysgu. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos gwir ddiddordeb a lefel uchel o gymhelliant a balchder yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda iawn i strategaethau'r ysgol ar gyfer codi hyder a datblygu eu gwydnwch fel dysgwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, hyderus ac annibynnol sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i wella eu gwaith gan ddefnyddio ystod o strategaethau yn cynnwys cyfeirio'n rheolaidd at eu targedau unigol wrth gyflawni eu tasgau. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at lwyddiant eu dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n ddisgybledig ac aeddfed yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn arddangos aeddfedrwydd arbennig wrth drafod ac ymateb i waith ei gilydd gan ddefnyddio iaith sensitif ac adeiladol. Mae bron pob un yn barod i ddysgu ar gychwyn gwersi, yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus. Dangosant lefel uchel o annibyniaeth a pherchnogaeth o'u dysgu, er enghraifft wrth ymateb i arwydd cerddorol i dacluso ar ddiwedd gwers ac estyn at eu ffrwythau yn drefnus a digymell.

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng y disgyblion â'i gilydd ac oedolion yn nodwedd arbennig o'r ysgol sy'n cyfrannu'n sylweddol iawn at yr awyrgylch ddysgu effeithiol ar draws y dosbarthiadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos gallu cynyddol i gyd-gynllunio, i fynegi barn a chyfrannu'n gynhyrchiol at yr hyn y maent yn ei ddysgu. Drwy gyfrannu at gynllunio themâu'r dosbarthiadau fel 'Cestyll a Dreigiau' yn y cyfnod sylfaen ac 'O am fyd rhyfeddol' yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn cael eu cymell i ddysgu yn hynod lwyddiannus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos balchder a brwdfrydedd mawr yn eu hysgol a'r ardal leol. Maent yn arddangos adnabyddiaeth a gwybodaeth drwyadl am leoedd a materion perthnasol fel Parc Cenedlaethol Eryri sy'n gynefin i'r planhigyn prin, Lili'r Wyddfa, a gwaith y Tîm Achub Mynydd. Maent yn trafod yn ddeallus y profiadau a gawsant drwy ymweliadau â Chastell Biwmares, Cwm Idwal ac wrth ganŵio a phadl-fyrddio ar Y Fenai.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Maent yn deall pwysigrwydd iechyd meddyliol ac emosiynol ac yn ymateb yn arbennig o dda i ddatblygu strategaethau i hyrwyddo eu gwydnwch, er enghraifft er mwyn dal ati i oresgyn sefyllfaoedd heriol a bod yn barod i fentro yn eu dysgu. Maent yn deall y peryglon a all godi yn eu bywyd bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen. Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein, ac yn amlinellu peryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we. Mae'r disgyblion sy'n arweiniwyr digidol yn chwarae rôl allweddol i gefnogi hyn.

Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Maent yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw. Mae'r rhan fwyaf yn wybodus am nodweddion gwledydd sy'n datblygu'n economaidd a phwysigrwydd hyrwyddo heddwch yn y byd, sy'n dechrau gyda heddwch personol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gallant egluro materion amgylcheddol. Enghreifftiau da o hyn yw eu gwybodaeth am ailgylchu gwastraff a chynhesu byd eang a'u heffaith ar wledydd gan gyfeirio at faterion sydd yn y newyddion yn gyfredol, fel y tanau yn Awstralia.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymgymryd â'u rolau fel aelodau o ystod eang o gynghorau ysgol yn gydwybodol iawn. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn ac yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau synhwyrol dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eraill o fewn cymuned yr ysgol. Enghraifft dda iawn o hyn yw gwaith y pwyllgor eco i hyrwyddo rôl y disgyblion o fewn y prosiect cadw ieir ar dir yr ysgol ac ymgyrch y Pwyllgor Ysbrydol i gefnogi banc bwyd Cadeirlan Bangor.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng holl oedolion a disgyblion yr ysgol. Mae'n seiliedig ar barch sy'n meithrin awyrgylch ddysgu lwyddiannus. Mae bron bob un o'r oedolion yn fodelau rôl ieithyddol o ansawdd uchel. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn gan drin pob disgybl yn gyfartal gan ddangos parch tuag atynt. Mae'r cymorthyddion hefyd yn cefnogi disgyblion sydd angen cymorth addysgol a lles yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r arddangosfeydd trwy'r ysgol yn ysgogol iawn ac yn gyfuniad o ddathlu gwaith disgyblion a chymorth i'w dysgu yn annibynnol. Enghraifft o hyn yw'r waliau sy'n hyrwyddo pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru ac egwyddorion meddylfryd twf ar gyfer disgyblion pob oed.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u gwreiddio'n dda iawn yn yr ysgol. Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau dysgu diddorol er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion. Yn ogystal, maent yn amrywio eu dulliau holi yn gelfydd yn ôl yr angen. Mae'r holl athrawon yn rhannu ac esbonio nodau a meini prawf llwyddiant yn glir. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion wella darnau penodol o'u gwaith, ynghyd â chyfleoedd bwriadus i hunanasesu ac asesu cyfoedion, yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Mae pob un yn rhoi adborth adeiladol a phwrpasol ar waith disgyblion. Mae targedau iaith a mathemateg i ddisgyblion i'w cynorthwyo i wella eu gwaith yn effeithiol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r athrawon yn darparu fframweithiau defnyddiol i gynorthwyo medrau ysgrifennu disgyblion gan gynnwys berfau cryno ac, o ganlyniad, mae safonau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn dda neu'n well.

Mae ansawdd cynllunio athrawon yn gynhwysfawr ac yn gyson ar draws y cyfnodau dysgu, sy'n cynnwys cyfeiriad manwl at y fframweithiau medrau, tasgau cyfoethog a thasgau sy'n hybu llais y disgybl. Mae'r cynllunio hefyd yn ystyried deilliannau grwpiau o ddisgyblion er mwyn sicrhau bod lefel briodol o her neu o gymorth i lawer o'r tasgau a'r heriau annibynnol. Mae'r cynlluniau cwricwlaidd wedi eu llunio gyda phwyslais penodol ar syniadau'r disgyblion a'r rhieni, gan fod yn seiliedig ar werthoedd yr ardal leol. Enghreifftiau o hyn yw'r thema Chwedlau'r Ddraig sydd yn gyfle i ddisgyblion astudio hanes cestyll gogledd Cymru a dysgu am hanes traddodiad y Fari Lwyd. Mae'r gweithgareddau yn gyffrous ac yn cwmpasu'r holl feysydd dysgu yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion y cyfnod sylfaen weithio ar heriau'n annibynnol. Mae hyn wedi ychwanegu at agwedd gadarnhaol a brwdfrydig y disgyblion tuag at eu dysgu sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad bron bob un yn y gwersi. Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r ardal allanol yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft mewn gweithgareddau i ddarganfod estroniaid o'r gofod a mesur eu taldra.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi'u gwreiddio'n llwyddiannus iawn ac mae'r cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion drafod eu dysgu yn rhagorol. Mae egwyddorion cynnwys llais y disgybl a'r rhieni i ddewis heriau sy'n addas at oed a gallu'r disgyblion hefyd yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cynnig ystod dda iawn o weithgareddau symbylus y tu hwnt i'r ysgol. Mae'r rhain yn cyfoethogi'r cwricwlwm drwy gynnig profiadau uniongyrchol o fewn cyd-destun yr ardal leol, ymweliadau diddorol i gestyll lleol, fferm gyfagos a'r Wyddfa sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn meddu ar wybodaeth eang am yr hyn sydd angen iddynt ei ddysgu o fewn themâu'r cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws meysydd eraill o'u dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cymhwyso eu medrau rhifedd i ddarganfod amser a chost hedfan i wahanol wledydd ar draws y byd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws yr ysgol yn ardderchog. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ac elfennau o'r fframwaith cymhwysedd digidol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau cadarn iawn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn creu algorithm i fynd â'r dyn danfon pitsa i'r tai cywir, a defnyddio'r we i ddarganfod lleoliadau sy'n cymryd rhan yng nghwpan rygbi'r byd.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol a gofalgar sy'n creu cymuned glós lle mae disgyblion a staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd.

Mae'r ysgol yn darparu addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol iawn sy'n seiledig ar feithrin gwerthoedd cadarn fel parch, cwrteisi ac ymroddiad. Mae'n gosod pwyslais canolog ar hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol ac mae'r disgyblion yn arddangos lefel uchel o gwrteisi wrth ymdrin â'i gilydd ac oedolion. Mae strategaethau fel pwyllgor lles disgyblion a'r 'arhosfan ffrindiau' yn cyfrannu'n effeithiol iawn at sicrhau cymuned gynhwysol a chyfartal. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda ac yn ymroi'n gydwybodol iawn i'w gweithgareddau.

Mae gan yr athrawon adnabyddiaeth arbennig o'r disgyblion ac maent yn teilwra'r gweithgareddau dysgu i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn effeithiol iawn. Mae gweithdrefnau hynod drefnus a thrylwyr ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn i gynllunio camau dysgu y disgyblion yn bwrpasol iawn ac i ddarparu ymyraethau priodol ar gyfer y rheini sydd angen cymorth ychwanegol. Mae gan bob disgybl dargedau dysgu unigol synhwyrol. Mae gan y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol, wedi ei lunio trwy ymgynghori â'r disgybl a'i rieni. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gydwybodol iawn ac yn addasu'r cymorth, lle bo'n briodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol i gynorthwyo'r disgyblion hyn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae pwyslais cryf ar hybu iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion. Mae trefniadau da wedi eu sefydlu i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn cael eu hannog i yfed dŵr yn gyson ac i fwyta ffrwythau ar adegau egwyl. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd deiet cytbwys. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar hybu iechyd corfforol drwy wersi ymarfer corff ac ystod amrywiol o weithgareddau chwaraeon. Mae'r cyfle i gyfranogi mewn rhaglen hyfforddiant beicio, a gaiff ei arwain gan aelod o staff yr ysgol, yn gynyddol boblogaidd ymhlith y

disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi sylw effeithiol i warchod lles meddyliol ac emosiynol y disgyblion ac yn gweithredu egwyddorion hyrwyddo gwydnwch y disgyblion. Mae'r strategaethau hyn wedi'u gwreiddio ar draws y dosbarthiadau ac yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar feddylfryd a hyder y disgyblion yn eu dysgu. O ganlyniad i ystod o strategaethau llwyddiannus, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles.

Mae'r ysgol yn darparu'n ystyrlon a phwrpasol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel parchu amrywiaeth, goddefgarwch a chyfeillgarwch. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am faterion moesegol fel gwarchod yr amgylchedd a masnach deg a sut gallant chwarae rhan i warchod y byd. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu paratoi'n effeithiol iawn fel dinasyddion cyfrifol y dyfodol.

Mae hyrwyddo defnydd, a meithrin balchder yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, yn derbyn sylw parhaus yn narpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn frwdfrydig wrth wneud y gorau o'i hardal leol a'i chyfoeth o gyfleoedd dysgu. Enghreifftiau da iawn o hyn yw'r ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol fel yr amgueddfa lechi yn Llanberis a chestyll y Penrhyn a Biwmares. Mae'r disgyblion yn manteisio ar ystod eang o brofiadau cyfoethog sy'n gyfrwng effeithiol i hyrwyddo eu dealltwriaeth o Gymreictod a'u hunaniaeth, er enghraifft drwy weithgareddau fel dathlu dydd Owain Glyndŵr, ac ymweld â stiwdio sain i recordio cân gydag artist enwog.

Mae'r ysgol eisoes wedi cymryd camau pendant i ddiwygio'r cwricwlwm er mwyn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru gan roi lle amlwg iawn i hyrwyddo medrau creadigol y disgyblion mewn modd dychmygus ac effeithiol. Manteisia'r dosbarthiadau ar arbenigedd beirdd, arlunwyr a cherddorion i gynnal gweithdai a phrosiectau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft wrth ddylunio a chreu byrddau graffiti ar gyfer buarth yr ysgol, yn seiliedig ar werthoedd yr ysgol ac egwyddorion hybu gwydnwch. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i berfformio drwy ganu, dawnsio a chwarae offerynnau mewn gwasanaethau a cyngherddau ar adegau fel Diolchgarwch a Gŵyl Ddewi ac i fynychu perfformiadau gan gerddorion proffesiynol.

Mae polisi drws agored yr ysgol cael ei werthfawrogi'n fawr gan rieni. Mae hyn yn cynnwys gwahodd rhieni i gynnig syniadau ar gyfer themâu a gweithgareddau dysgu'r dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni yn cynnwys defnydd effeithlon o'r cyfryngau cymdeithasol. Trefnir nosweithiau cwriwcwlaidd i rieni, sy'n fodd buddiol i gynyddu eu dealltwriaeth o'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi dysgu eu plant. O ganlyniad, mae gan yr ysgol berthynas gefnogol a chynhyrchiol gyda rhieni.

Mae'r ysgol yn rhan gwbwl ganolog o'r gymuned leol ac yn cynnal y cysylltiad clós hwnnw drwy weithgareddau amrywiol, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn cyngerddau a gwasanaethau i ddathlu achlysuron arbennig fel Y Pasg a'r Nadolig. Manteisia'r ysgol yn llawn ar fewnbwn aelodau o'r gymuned a phartneriaethau, er enghraifft gyda'r tîm achub mynydd lleol, Esgobaeth Bangor a Phrifysgol Bangor ar gyfer datblygu amrywiol brosiectau. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn ardderchog.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion leisio eu barn am eu gwersi ac am fywyd a gwaith yr ysgol drwy ystod eang o gynghorau.

Mae’r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae’r pennaeth yn cynnig arweiniad cefnogol a chadarn wrth osod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy’n seiliedig ar ddarparu addysg o’r ansawdd uchaf posibl i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd hyd eithaf eu gallu mewn awyrgylch hapus, teuluol a chynhwysol. Mae’r pennaeth yn cyfleu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn i’r staff, disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr. O ganlyniad, mae gan bawb ddealltwriaeth glir o’u cyfrifoldebau a disgwyliadau uchel iawn ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad a lles disgyblion.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw’r modd mae’r pennaeth yn dosrannu cyfrifoldebau’n hynod effeithiol a phwrpasol ymhlith y staff. Mae hyn yn rhan greiddiol o’i strategaeth ac yn fodd effeithiol i ddatblygu staff, hybu cydweithio llwyddiannus a rhannu arfer dda. Mae rolau staff a’u cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur yn bodoli rhwng yr holl staff. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith tîm o ansawdd uchel. Mae’r holl athrawon yn ymateb yn frwdfrydig iawn wrth ddatblygu meysydd ac agweddau dysgu er mwyn codi safonau disgyblion. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw’r modd y mae’r holl athrawon yn gweithredu strategaethau meddylgarwch. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn meddu ar y medrau hanfodol sydd eu hangen arnynt i’w galluogi i ddysgu’n effeithiol a dangos parodrwydd i fynd i’r afael â phrofiadau newydd. O ganlyniad, mae agweddau’r disgyblion at eu dysgu yn rhagorol.

Un o rinweddau cryfaf arweinyddiaeth yr ysgol yw’r cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i staff ddatblygu’n broffesiynol. Mae’r pennaeth yn ymfalchïo ac yn annog datblygiad pob aelod o staff. Mae hyn wedi arwain at gymuned ddysgu gref lle mae staff yn dysgu a datblygu gyda’i gilydd yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae parodrwydd y pennaeth a’r holl staff i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw’r modd mae athrawon yn cydweithio’n effeithiol er mwyn cynnig darpariaeth sydd yn adlewyrchu egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd bron pob disgybl tuag at eu dysgu, ac ar eu gallu i ddyfalbarhau a gweithio’n annibynnol.

Mae cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion lleol yn ychwanegu’n fwriadus iawn at ddysgu proffesiynol y staff ac er mwyn cryfhau’r ddarpariaeth ymhellach. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw ymroddiad athrawon wrth gyflwyno strategaethau asesu ar gyfer dysgu cytûn ar draws yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon yn datblygu eu gallu i gynnig adborth effeithiol i ddisgyblion am eu gwaith a chynnig cyngor am beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cadarn o adolygu ei pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae’r trefniadau hyn yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn hyrwyddo gweledigaeth o dargedu a herio disgyblion er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae’r gweithdrefnau hyn yn seiliedig ar gasglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol sy’n cynnwys barn pob aelod o staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae gan staff berchnogaeth gref iawn o’r broses sicrhau gwelliant ac maent yn gwerthuso

cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella'n gyson. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r gwelliant diweddar yn natblygiad medrau TGCh disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Trwy gydweithio effeithiol â'r staff a thrafod enghreifftiau o waith disgyblion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn drwyadl i wneud penderfyniadau wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif a helpu i osod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol iawn.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'w disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn elwa yn fawr iawn o gyfraniadau ariannol gan gymdeithas athrawon a rhieni. Gwneir defnydd effeithiol o'r arian hwn i gefnogi gwaith y cynghorau disgyblion, er enghraifft i brynu byrddau graffiti i gyfoethogi'r buarth sydd yn un o flaenoriaethau'r cyngor ysgol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2020